

papur



priordy



**YR UN FATH GYDA CHI: DYCH CHI’N TEIMLO’N
DRIST AR HYN O BRYD. OND BYDDA I’N EICH
GWELD CHI ETO A BYDDWCH YN DATHLU, A
FYDD NEB YN GALLU DWYN EICH LLAWENYDD
ODDI ARNOCH CHI.**

**Yr Efengyl yn ôl Ioan 16: 22
(beibl.net)**

***Dewiswyd gan Heledd Tomos.
Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn***

**Rhifyn 326
PAPUR HYDREF 2019**

Nodyn gan ein Gweinidog

Salem

Tybed a oes gennych chi gopi o 'Salem', y darlun a baentiwyd gan yr artist Sydney Curnow Vosper ym 1908 yn eich cartref chi? Mae Salem ymhlith y darluniau Cymraeg enwocaf. Yn wir, gellir dadlau ei fod ymhlith eiconau Cymru.

Mae'r darlun enwog yn dangos Siân Owen, Ty'n-y-Fawnog, yn cyrraedd gwasanaeth yng Nghapel Salem yng Nghefn Cymerau, ger Llanbedr yng Ngwynedd, yn gwisgo'i shôl orau - sydd, i'r rhai â llygad craff, yn portreadu'r diafol yn ei gwnïad.



Bydd yn bosib cynnig am un o fersiynau gwreiddiol llun enwog Salem y mis hwn pan fydd yn cael ei gynnwys mewn arwerthiant yng Nghaerdydd, gydag amcanbris o rhwng £40,000 a £60,000, yn ôl y cwmni arwerthu Rogers Jones & Co.

Fe werthwyd y llun cyntaf un o Salem i William Hesketh Lever, perchennog cwmni *Sunlight Soap*. Cafodd y ddelwedd ei mabwysiadu i farchnata'r sebon ac roedd modd i gwsmeriaid gasglu tocynnau arbennig er mwyn prynu copi o'r darlun gyda'r canlyniad bod y llun i'w weld mewn cartrefi ar draws Cymru.

Mae mân wahaniaethau rhwng y llun cyntaf a'r ail fersiwn a gafodd ei baentio ar gais brawd-yng-nghyfraith yr arlunydd, Frank James. Roedd Mr James - cyfreithiwr ym Merthyr Tudful - wedi dotio gymaint at y llun fel y gofynnodd i Vosper greu copi manwl ohono.

Ydy, mae Siân Owen, Ty'n-y-fawnog wedi bod yn enw cyfarwydd mewn aml i gartref yng Nghymru. Ond pwy yw'r cymeriadau eraill yn y llun? Wel, am esboniad llawn mynnwch gip ar gyfrol wych Tal Williams (o Glydach!) *Salem, Y Llun a'r Llan (Cyhoeddiadau Barddas 1991)*. Yn fras, yn gwmni i Siân Owen mae Evan Edward Lloyd, Laura Williams, Mary Rowlands, Leusa Jones ynghyd â'r brodyr Owen Siôn a William Siôn. A'r gŵr moel sy'n eistedd o dan y cloc ac yn gwyro'i

ben yn ddefosiynol yw Rhobert Williams, Cae'r Meddyg. Collodd un bachgen bach ei gyfle i fod yn y llun, sef Evan Rowlands, y bachgen dall. Yn ddall o'i enedigaeth, roedd ei anabledd yn peri iddo fethu eistedd yn llonydd, druan. Fel mater o ddiddordeb bu Evan Rowlands yn fyfyrwr yng Ngholeg Diwinyddol Bala-Bangor â'i fryd ar fynd i'r weinidogaeth. Er na chafodd alwad i eglwys, fe'i ordeiniwyd gan ei fam eglwys a threuliodd ei oes yn pregethu yn Slr Feirionnydd.



Bu'r artist, **Vosper** yn ymwelydd cyson â gogledd Cymru'n chwilio am ysbydoliaeth i'w ddarluniau. Wrth grwydro un tro i 'gyfeiriad Cwmnantcol, dywedir i'r cymylau wahanu, a gwenodd Capel Salem arno yn yr heulwen haf gynnar, fel petai yn ei wahodd ef i mewn i weld prydferthwch syml y capel. Heuwyd yr hedyn a oedd i brifio'n ddarlun enwog a welwyd dros y blynyddoedd mewn miloedd o gartrefi lle bynnag y trigau'r Cymry.' (Salem, Tal Williams).

Oni bai am ymweliadau Curnow Vosper â'r ardal, enw digon di-sôn-amdano fyddai Salem Cefn Cymerau.

On'd yw hi'n rhyfedd sut mae un digwyddiad neu un person, neu un darlun yn yr achos hwn, yn medru rhoi enwogrwydd i lefydd digon di-nod.

Pwy ohonom fyddai wedi clywed am Bantycelyn oni bai bod William Williams wedi'i eni yno? Neu Ddolwar-fach, oni bai am Ann Griffiths?.


Lle digon di-nod oedd Bethlehem hefyd, tan i Waredwr y byd gael ei eni yno. Ac ni fyddai sôn am Galfaria oni bai am aberth Iesu.

Iesu roddodd arbenigrwydd i Fethlehem a Christ roddodd Calfaria ar gof y byd.

Mae darlun Vosper yn cadw enw Salem, Cefn Cymerau'n fyw.

Pobl, ac nid darlun - pobl fel chi a fi sy'n cadw'r cof am Fethlehem a Chalfaria'n fyw yn ein ffyddlondeb i'r Un a dynnodd lun o Dduw, heb yr un brycheuyn neu farc o'i le.

**Rhyfeddu 'rwyf, o Dduw,
dy ddyfod yn y cnawd....**



Gweddïwn

Arglwydd, cynyddda

Fy awydd am fywyd,
Fy ngweledigaeth o ogoniant,
Fy ngwrandawriad o'th alwad,
Fy ngafael ar wirionedd,
Fy ymateb i'th gariad,
Fy sensitifrwydd tuag at eraill,
Fy nhynerwch tuag at y greadigaeth,
Fy awyddfryd am ryfeddod,
Fy ngariad tuag atat.



Amen



DARLLENIADAU



Mis Hydref	Darlleniad
Wythnos 1	Luc 17: 5-10
Wythnos 2	Luc 17: 11-19
Wythnos 3	Luc 18: 1-8
Wythnos 4	Luc 18: 9-14

CYMORTH CRISTNOGOL

BORE COFFI

Dydd Sadwrn – 26 Hydref 2019
10 hyd 12

Capel y Bedyddwyr Saesneg, Caerfyrddin

Cardiau Nadolig ar gael



**GWESTAI'N
GŴYL DDIOLCHGARWCH**

**YR HYBARCH
ALFRED JAMES
RANDOLPH THOMAS**



**PP: Rydych chi'n dod yn wreiddiol o
Langennech, pentref a chymuned ar lan orllewinol aber Afon**



**Lluchwr. Soniwch ychydig am y
dylanwadau cynnar yn yr ardal hon.**

RT: Dw i'n hannu o ardal ddiwydiannol - gwaith
glo a dur gyda mwyafrif y bobl yn löwyr neu'n
gweithio yng ngwaith alcarn Trostre. Roedd
dylanwadau sosialaeth yn gryf yn yr ardal, yn

enwedig ar y teulu - yn seiliedig ar Gristnogaeth sosialaidd. A her bob
amser yw ymladd dros gyfiawnder a iawnderau pobl.

**PP: Mae'r gyfrol ddiweddar *Yr Alwad* yn rhoi cyfle i nifer o
weinidogion rannu'u stori am yr hyn a'u cymhellodd i ddilyn
llwybr yr alwedigaeth i'r weinidogaeth Gristnogol yng Nghymru.
Tybed a fydddech chi'n barod i ddweud eich stori chi wrthym yn
gryno nawr?**

RT: Dylanwad hen fam-gu oedd yn Fedyddwraig yn bennaf. Roedd hi
wedi'i geni ym 1868 a bu bron fyw hyd yn gan mlwydd oed. Roedd
dylanwad Diwygiad 1904 yn drwm arni a'i dylanwad hithau'n gryf iawn
arna i. Roedd ei neges yn syml: '*byw'r gair a gweithredu'r gair.*'

**PP: Rydych wedi cael gyrfa hir gyda'r Eglwys yng Nghymru – o
ddyddiau curadaeth yng Nghydsweli a Llandyfaelog hyd at
ddyddiau archddiaconiaeth ym Mhowys. Oes achlysuron
arbennig yn ystod y blynyddoedd hynny sy'n mynnu aros yn y
cof?**

RT: Bu streic y glöwyr yn ystod yr amser ro'n i'n ficer Rhydaman ac
roedd hi'n amser anodd dros ben, yn enwedig i deuluoedd y
gweithwyr. Ac ar ôl hynny collwyd nifer o bobl ifainc yn y gymuned
drwy hunanladdiad. Colli dau aelod ffyddlon wedyn pan aeth trên

o Abertawe i'r Amwythig i mewn i'r afon Tywi yn ystod llifogydd. Ac yna yng Nghaerfyrddin sefydlu Canolfan Deuluol Tŷ Ni a Dr Ms.

PP: Yn sylwi'ch bod wedi gweithredu fel caplan am rai blynyddoedd yn Ysbyty Glangwili a chyda'r Frigâd Dân. A oedd y math hwn o waith wrth eich bodd?

RT: Fe ddywedwn taw'r amser mwyaf ffrwythlon yn fy ngweinidogaeth oedd bod yn

Gaplan yn Ysbyty Glangwili – yn cydweithio gyda staff yr ysbyty i edrych ar ôl y cleifion. Anrhydedd o'r mwyaf oedd cael gwneud hynny.



PP: Rydych wedi ymgysylltu â materion cymdeithasol ar hyd eich gyrfa. Enghreifftiau yw'ch ymwneud mewn gwahanol ffyrdd â



Chartrefi Cymru, Grŵp Tai Gwalia a Bwrdd Iechyd Hywel Dda. A yw hi'n bwysig i ni gydweithredu'n gymdeithasol yn enw'r Efengyl yn eich golwg chi?

RT: Mae dylanwad fy magwriaeth yn gryf o safbwynt cysylltu gwaith cymdeithasol â gwaith y deyrnas. Rwy'n teimlo'n bod ni i gyd yn cael ein galw i waith y deyrnas. Ryn ni i gyd drwy'n swyddi'n cyfrannu at bwrpas Duw yn y byd.

PP: Datgysylltwyd Yr Eglwys yng Nghymru oddi wrth Eglwys Loegr ar 31 Mawrth 1920, dan Ddeddf yr Eglwys Gymreig (1914). Bydd 2020 felly'n garreg filltir nodedig yn ei hanes. Ond beth yn eich barn chi yw'r her fwyaf sy'n wynebu'r Eglwys yng Nghymru yn y dyfodol?

RT: Mae'r eglwys wedi wynebu heriau trwy'i hanes, ond yr her fwyaf o'n blaen heddiw yw bod pobl yn meddwl fod yr eglwys yn amherthnasol i'w bywydau bob dydd.

PP: Fe golloch chi'ch priod a'ch cymar, Jean, yn 2018 yn llawer rhy gynnar a honno'n ergyd drom i chi, wrth reswm. Mae tri o feibion gennych - Simon, Stuart a Mathew – ond bod taith go hir gennych i fynd i weld un ohonyn nhw!!

RT: Jean oedd asgwrn cefn y teulu, Roedd ei ffydd a'i hesiampl yn arweiniad i ni i gyd. Ac rwy'n ddiolchgar am y blynyddoedd a gawsom

gyda'n gilydd. Mae'i dylanwad yn parhau i roi nerth i ni. Mae Simon yn byw yn Hong Kong gyda'i deulu a hyfryd yw cael cyfle i ymweld â nhw. Ac rwy'n ffodus iawn fod Stuart a'i deulu a Mathew yn byw yn y dre.



PP: Rych chi wedi ymddeol i Borthyrhyd. Ond a yw ymddeol yn air priodol mewn gwirionedd a chithau'n Gadeirydd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant? Mae honno'n swydd sy'n gofyn llawer, ddywedwn i!

RT: Rwy wedi ymddeol o un swydd ac yn cymryd un arall ymlaen! Mae rhai pobl yn dweud fy mod yn gweithio'n fwy caled nawr na phan o'n i'n Archddiacon Aberhonddu! .Ond mae'n anrhydedd i gadeirio Cyngor Prifysgol sy'n trawsnewid bywydau bobl.



PP: Mae'n siŵr, serch eich prysurdeb, fod cyfle i ymlacio bob yn hyn o hyn. Beth wnewch chi yn yr oriau hynny?

RT: Cerdded yw'r peth mawr. Rwy'n cerdded yn awr tua 30 milltir yr wythnos. Mae chwaraeon yn bwysig a dw i'n cefnogi'r Scarlets a thimau pêl-troed Caerfyrddin, Abertawe a Lerpwl.

PP: Ac un cwestiwn arall i gloi, os gwelwch yn dda. A allwch chi gynnig gair o galondid i ni Gristnogion yng Nghymru yn ail ddegawd yr unfed ganrif ar hugain?

JR: Mae'r eglwys dan arweiniad yr Ysbryd Glân ac mae'n bwysig i gofio hynny. Ond mae yna her i ni gydweithio â'r Ysbryd i drawsnewid bywydau.

Llawer iawn o ddiolch i chi am ateb y cwestiynau ac edrychwn ymlaen at eich croesawu i'n Gŵyl Ddiolchgarwch

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

JANET A GWYNFOR DAVIES

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

Y GYMDEITHAS - 2019-20

Cyfarfodydd am 7 ar Nos Lun yn y Ffestri oni nodir yn wahanol

2019

Dyddiad	Siaradwr	Darllenydd	Paratoi'r Te
7 Hydref	John Rees o Raglen Trysorau'r Teulu S4C	Gareth Gravell	Nansi Hayes Eirlys Jones
4 Tachwedd Cana a Bancyfelin yn ymuno â ni	Atgofion Plant y Priordy Sulwyn Thomas, Rhian Evans a Dai Lloyd	Gwynfor Davies	Eira Phillips Glenys Thomas Mair Meredith
2 Rhagfyr Y Tabernacl Foelcwan a Thalog yn ymuno â ni,	Aled Scourfield BBC Cymru	Sulwyn Thomas	Janet Davies Gloria Evans Myfanwy Jones

2020

5 Ionawr Cwrdd yr Ofalaeth ar Ddechrau Blwyddyn Newydd	Mwynwen a Huw Jones a'r Teulu		Is-bwyllgor Bwyd
6 Chwefror (lau) Ymuno â'r Tabernacl	Hugh Griffiths (Y Ddaear, y Gofod a'r Amgylchedd)		
2 Mawrth Swper Gŵyl Dewi yn Pethau Da	Rebeca Hayes		
6 Ebrill	Mary Thorley	Huw Michael	Rhyswen Michael Rhian Jones
4 Mai	Oedfa yng Nghapel yr Amgueddfa		Swper yn yr Ychen Du
21 Mehefin (Sul)	Pererindod yr Ofalaeth i Soar y Mynydd		

**GWASANAETH DIOLCHGARWCH
CARTREF
PLAS-Y-DDERWEN**

Dydd Gwener 20 Medi 2019

PWYSIGRWYDD dyrchafu'r pethau bychain mewn bywyd oedd prif neges ein Gweinidog yn y Cwrdd Diolchgarwch eleni.



Yn yr un modd ag y mae'r hedyn mwstard – yr hedyn lleiaf un - yn tyfu'n goedoen fawr y gall yr adar ddod i nythu yn ei changhennau, mae'n gweithredoedd a'n cymwynasau bach ni, hyd yn oed y rhai lleiaf oll, yn troi'n bethau mawr yng ngolwg eraill, fel cymydog neu glaf. Mor bwysig yw dyrchafu'r pethau bychain sy'n gallu troi'n bethau mor fawr.

Sbardunwyd ein Gweinidog i fynd ar y trywydd hwn gan y goeden dderw fawr sydd ger ei chartref a honno wedi datblygu o fesen mor fach.

Mynegodd hefyd mor bwysig yw hi i ni ddiolch am gnwd y cynhaeaf a thrwy hynny gynnal traddodiad y gellir ei olrhain i'r Hen Destament.

Roedd lolfa'r cartref yn llawn hyd yr ymylon ar brynhawn hynod o heulog gyda chynrychiolaeth dda o gapeli'r Ofalaeth ac eglwysi eraill yn bresennol ynghyd â'r trigolion. Ac am y tro cyntaf erioed, hyd y gwyddys, arhosodd Jill y Gath yn y lolfa drwy'r gwasanaeth - arwydd sicr fod y gennad wedi plesio!

Roedd y canu'n fyrlymus, er gwaethaf y poethder, a diolch i Mai Thomas am gyfeilio ar yr organ.

Mwynhawyd paned a sgwrs â'n gilydd cyn ymadael ac rydym yn ddyledus i Loraine Kitchen, Cydgysylltydd Gweithgareddau'r Cartref a staff eraill am y paratodau a'r teisennau hyfryd.



DIWEDDGLO DA i brynhawn da.

SWYDDOGION NEWYDD

Bydd Meinir ac Elis Jones yn gorffen y flwyddyn hon fel Trysoryddion yr Ysgol Sul yn dilyn blynyddoedd lawer o waith trylwyr iawn. Mae'n dyled yn fawr iddynt. Mae ELERI THOMAS wedi derbyn y cynnig i'w dilyn fel Trysorydd a dymunwn yn dda iddi wrth y gwaith.



Bydd Huw LI Edwards yn gorffen fel Ysgrifennydd Ariannol ddiwedd y flwyddyn ar ôl bod yn ddeiliad y swydd ers peth



amser bellach. Diolch iddo am ei holl waith, yn enwedig mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol a gweithredu gofynion Deddf Diogelu Data 2017. Mae'r DR HUW MICHAEL wedi cytuno i'w ddilyn yn y swydd hon a dymunwn yn dda iddo yntau wrth y gwaith. Mae'r Eglwys bob amser yn gwahodd yr Ysgrifennydd Ariannol i ymuno â'r Ddiaconiaeth ac mae'n dda dweud fod y Dr Huw wedi derbyn y gwahoddiad hwn. Gan

hynny, does dim hawl gennym i ystyried ei enw yn yr etholiad ar gyfer diaconiaid newydd sy'n digwydd ar Ddydd Sul 3 Tachwedd 2019. Bydd y Dr Huw yn gorffen fel Ysgrifennydd y Cyfamodi hynod o gydwybodol yr eglwys ddiwedd y flwyddyn a gobeithiwn benodi olynnydd iddo yn y swydd hon cyn bo hir iawn.

BORE COFFI MACMILLAN

Llongyfarchiadau mawr i Alison Parsons a'i thîm am godi £1190 ar y diwrnod ym More Coffi Macmillan a gynhaliwyd yn Ffestri'r Priorddy ar Ddydd Gwener 27 Medi 2019. Ardderchog yn wir!



ETHOL DIACONIAID NEWYDD DYDD SUL 3 TACHWEDD 2019

Mae tymor y diaconiaid a gafodd eu hethol gennym yn 2012 yn prysur ddirwyn i ben. Byddwch yn cofio, dan ein rheoliadau newydd, mai cyfnod o saith mlynedd bellach yw tymor gwasanaeth diacon.

**Y diaconiaid a gafodd eu hethol y pryd hwnnw oedd
TIM HAYES, GARETH GRAVELL, EIRLYS JONES a
CHRIS LLOYD. Mawr yw ein diolch am eu cyfraniad rhagorol
dros y saith mlynedd diwethaf.**

**Gan fod pedwar yn gorffen a'n bod hefyd wedi cael nifer o
golledion yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi
penderfynu symud ymlaen i ethol
PUM DIACON NEWYDD y tro hwn.**

**Bydd pob aelod, felly, yn derbyn ffurflen bleidleisio drwy law'r
dosbarthwyr yn ystod yr wythos sy'n dechrau 14 HYDREF 2019.**

**Bydd angen dychwelyd pob pleidlais erbyn DYDD SUL
3 TACHWEDD 2019, naill ai'n bersonol yn ystod yr oedfaon neu
drwy'r dosbarthwyr. Bydd blwch ar gyfer derbyn pleidleisiau yng
nghyntedd y capel.**

**Bydd enwau'r diaconiaid newydd yn cael eu cyhoeddi gan ein
Gweinidog ar FORE SUL 10 TACHWEDD 2019. Byddant yn cael
eu derbyn i'r ddiagonaeth gan ein Gweinidog yn yr oedfa ar
FORE SUL CYNTAF Y FLWYDDYN NEWYDD, sef
5 IONAWR 2020**

**A wnewch chi gofio, os gwelwch yn dda, nad oes hawl gennych i
bleidleisio'r tro hwn dros y diaconiaid y mae eu tymor yn dirwyn i
ben yn awr. A chan fod y DR HUW MICHAEL wedi derbyn ein
gwahoddiad i fod yn ddiagon yn sgil ei benodi'n Ysgrifennydd
Ariannol ein Heglwys, ni ddylid pleidleisio iddo yntau ychwaith yn
yr etholiad hwn.**

**Mae hawl gennych i bleidleisio am bum diacon newydd a
hyderwn y bydd modd i chi ddefnyddio'ch pleidlais yn llawn.
Fodd bynnag, os ydych yn dymuno pleidleisio i lai na phump yna
mae hawl gennych i wneud hynny.**

**Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, mae croeso i
chi gysylltu â'n Gweinidog neu un o'r diaconiaid.**

Mari Jenkins....

**GWASANAETH PLANT A
PHOBL IFAINC
1 Medi 2019**



AR fore Sul byrlymus cyntaf Mis Medi ac ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd daeth twr o bobl i'r Priordy ar gyfer y gwasanaeth. Cawsom ein swyno wrth ddod i mewn gan y band – Nikki'n cyfeilio gydag Elis, Iwan, Gareth Gravell, Gareth Jones, Jayne ac Elin hefyd yn cymryd ran.

Croesawodd Beti-Wyn bawb yn ôl ynghyd â'r ymwelwyr yn ein plith. Wedi i ni ganu'r emyn cyntaf '*Hosanna, Hosanna, Hosanna i'r goruchaf Dduw!*' (CFf 273) daeth Catrin Heledd ymlaen i gyhoeddi. Luned, Beca, Jona a Greta fach oedd yn gyfrifol am gasglu heddiw a phob un yn gwneud ei waith yn ddiwyd. Iestyn oedd yn cyhoeddi'r ail emyn *Dyro gân dan fy mron, gad im foli* (CFf 397.)

Daeth Tomos, Jac Davies a Jac Thomas i'r pulpud i roi cyflwyniad am y disgyblion. Tomos oedd yn gyfrifol am y rhagarweiniad ac yna cawsom glip fideo gyda cherddoriaeth yn enwi'r disgyblion. Ymunodd pawb yng nghytgan y gân ar y diwedd. Cawsom fraslun o hanes y disgyblion gan Jac Davies a hanes Iesu'n dewis ei ddisgyblion gan Jac Thomas.



Arweiniodd hyn at weddi sensitif gan Tomos i gwplâ.

Gofynnodd Beti-Wyn i'r Band Taro ymgynnull yn y blaen. Roedd pawb o fabanod bach i blant yr adran iau'n awyddus i gymryd rhan. Ethan oedd yn cyhoeddi 'r emyn *Un cam bach ar hyd y byd yr af* (CFf80). Clywyd y canu'n atseinio'r holl ffordd i lawr Heol y Prior gyda chyfeiliant y band taro brwdfrydig!.

Daeth y plant i eistedd yn y blaen ar gyfer anerchiad Beti-Wyn. Gofynnodd iddynt pwy oedd wedi bod ar wyliau ac i ble a chawsom sawl ateb yn cynnwys Denmarc, Iwerddon; yr Alban a Sweden. Gofynnodd pwy oedd yn edrych ymlaen at y tymor newydd

ac enwodd rai a fyddai'n dechrau yn yr ysgol neu'n symud i'r ysgol uwchradd eleni.

Dyweddodd Beti-Wyn iddi gael gwyliau yn yr Eisteddfod ynghyd ag ychydig o ddyddiau yng Ngogledd Lloegr yn cerdded y brynau mewn mannau hyfryd. Buodd hi hefyd i lan y môr yn Blackpool ar y ffordd adre! Profiad rhyfeddol iddi oedd ymweld â'r lle hwnnw! Dangosodd ddarn o roc i'r plant a gofynnodd pwy oedd yn



gwybod beth oedd e. Cawsom atebion difyr a diddorol, rhai yn meddwl mai cannwyll oedd e ac un plentyn wedi awgrymu taw lolipop oedd e! Eglurodd mai losinen arbennig sy ar gael yn Blackpool oedd roc gydag enw'r lle arno. Gofynnodd i Ethan geisio torri'r roc yn ei hanner, Roedd pawb yn aros yn eiddgar cyn i ni glywed sŵn y roc yn hollti.



Esboniodd Beti-Wyn fod yr enw Blackpool drwy'r roc i gyd. Aeth ymlaen i ddweud fod lesu wedi gorfod cael pobl i'w helpu sef y disgyblion. Roedd enw lesu Grist yn adnabyddus iddynt hwy yn gwmws fel yr enw'n mynd drwy'r

roc. Byddai enw lesu i'w weld ym mhob agwedd ar eu bywyd fel yr enw yn y roc. Dangosodd enghraifft o roc arall i'r plant gyda chalon yn mynd trwyddo. Mae'r roc yn llawn cariad yn union yr un peth â lesu, a'r cariad hwnnw'n cael ei drosglwyddo i ni.

Dyweddodd y buasai'n dosbarthu losin cariad (meddal!) i'r plant wrth iddynt adael y capel i gofio am galon lesu Grist.

Cyhoeddodd Beti-Wyn yr emyn *lesu geidwad bendigedig* (CFf 393), cyn i ni dderbyn y Cymun. Wyn, Alun, Chris Lloyd ac Adrian oedd yn helpu heddiw. Talodd Beti-Wyn deyrnged i ddau aelod ffyddlon a gollwyd yn ystod yr haf sef Oerwyn Lloyd a Siân Dalis Davies Yr Emyn olaf oedd *lesu yw'r lôr* (CFf 400).

DIOLCHWN heddiw i Beti-Wyn am lunio gwasanaeth ardderchog ac i bawb a gymerodd ran yn yr oedfa.

CYFARFOD ARBENNIG

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig yn y Priordy dan nawdd Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru i gyflwyno a gwobrwyo medalau G i ffyddloniaid yr Ysgol Sul yn Ne Cymru ar Ddydd Sadwrn 21 Medi 2019.

Anrhydeddwyd pump o Gapel y Tabernacl Caerdydd (2), Capel Peniel, Caerfyrddin, Capel Pen-y-bont, Cas-blaidd a Chapel y Tabernacl, Pencader. Roedd y cyfarfod yng ngofal y Parchedig Aled Davies. Cyfarwyddwr y Cyngor a chafodd gymorth y Parchedig Beti-Wyn James a Catrin Heledd Jones, un o'n diaconiaid ni. Roedd Meinir Lloyd wrth yr organ. Cyflwynwyd y Medalau i'r Ffyddloniaid gan ddau o ddisgynyddion teulu Thomas Gee, Roedd nifer helaeth o deuluoedd a ffrindiau'r ffyddloniaid yn bresennol yn ogystal ag aelodau'r capeli lle maent yn addoli.



YSGOL GYFUN GYMRAEG BRO MYRDDIN

*Sioe wreiddiol fyrlymus lle cawn
glywed lleisiau anghofiedig
Wyrsws Caerfyrddin, 1837.*

*Achubwch ar y cyfle i graffu trwy
gil y drws ar fywydau'r trigolion
lliwgar, gan fwynhau perfformiad
cast talentog disgyblion Ysgol
Gyfun Gymraeg Bro Myrddin.*



Mercher – Gwener 20-22 Tachwedd 2019 – 7.30

Theatr y Lyric, Caerfyrddin.

Tocynnau: £15 (Pris Llawn) £10 (Dan 16) - ☎0345 226 3510

CYFUNDEB ANNIBYNWYR GORLLEWIN CAERFYRDDIN



**CWRDD CHWARTER
HENLLAN AMGOED
DYDD IAU 28 TACHWEDD 2019
Y Gynhadledd am 10.30
Cyfarfod y prynhawn am 1.30**

Bywyd yn y Festri! Mis Medi

MAE tymor newydd yr Ysgol Sul a PIP wedi dechrau.



Yn ystod mis Medi bu dosbarth y babanod yn dysgu am ddisgyblion Iesu gan greu modelau 3D ohonynt. Mae Jac Thomas a Jona Marks, dau o aelodau PIP yn cynorthwyo yn yr Ysgol Sul a buont yn actio drama fer un



bore ac yn arwain y plant i feddwl am bethau sydd angen diolch i Dduw amdanynt. Aeth y plant ati i greu lluniau i ddiolch i Dduw am y pethau sy'n bwysig iddyn nhw.



Bu'r Dosbarth Canol yn dysgu un wythnos am am Stori

Ruth ac yn arbennig felly am garedigrwydd. Aethant ati i greu cwpanau siocled i'w rhoi i bobl sydd wedi bod yn garedig iddynt.



Cafwyd hwyl hefyd ar fore Sul arall yn dysgu am darian ffydd a chael gwisgo il fyny gan ddal tarian arbennig yn



eu llaw

Cafwyd croeso mawr yn Erw Hir a cheir adroddiad pellach a llun mewn man arall yn y papur hwn.

PIP

Bu PIP yn edrych yn gyflym un bore Sul yn y Ffestri ar y Beibl fel canllaw i fywyd gan chwilio ar *YouTube* am enghreifftiau. Buont yn darllen penodau cychwynnol Llyfr y Pregethwr, *'Beth yw pwynt unrhyw beth?, yna'n trafod a chwilio am atebion mewn bywyd. Beth fyddai'n life hacks ni i fywyd 'da' neu fywyd 'gwell', pethau sydd y tu hwnt i'r materol a'r hyn sydd yn y byd hwn? Aethant ati wedyn i ysgrifennu canllawiau i'w bywyd eu hunain, ee.*

- dal ati / peidio ag anobeithio
- hunanhyder
- bod yn garedig, heb ddisgwyl dim yn ôl
- caru'n gilydd
- ceisio deall pobl eraill a bod yn amyneddgar

TRA bo plant yr Ysgol Sul yn cynnal oedfa yn Erw Hir, mwynhadd criw PIP frecwast a chwis yng Nghaffi Pethau Da. Adroddiad a llun mewn man arall yn y papur.

GŴYL MAWL MEDI

Cynhaliwyd Gwyl Mawl Medi yn y Priordy eleni ar Ddydd Sul, 29 Medi 2019, gyda Hwyl Mawl Medi yn y bore a Chymanfa yn yr hwyr.

Yr arweinydd gwadd yn y ddau gyfarfod oedd Rhys Griffiths, Caerdydd.

Yn Hwyl Mawl Medi aelodau PIP (Pobl Ifainc y Priordy) oedd yn gyfrifol am y rhannau arweiniol a chyflwynwyd yr emynau ar ran ein capel gan Beca Elfyn, Luned Ifan, Caleb Snelson, Gwilym Snelson a Nansi Williams. Band y Priordy oedd yn cyfeilio.



Yn y Gymanfa, Y Parchedigion Beti-Wyn James ac Emyr Gwyn Evans gyflwynodd y rhannau arweiniol a chafwyd eitem gan Gôr Meibion Caerfyrddin dan arweiniad Wyn Maskel gyda Heather Williams yn cyfeilio. Roedd Meinir Lloyd a Heather Williams wrth yr organ.

Diolch yn fawr iawn i Bwyllgor Gŵyl Mawl Medi dan gadeiryddiaeth Iwan Evans am drefnu'r achlysur.

Tudur Dylan Jones ...

DIWRNOD HEDDWCH Y BYD

21 MEDI 2019

Cymdeithas y Cymod.. Cyngor Tref

Caerfyrddin

Cyngor Sir Caerfyrddin



Roedd dydd Sadwrn, 21 Medi eleni yn



ddiwrnod hanesyddol yn Sir Gaerfyrddin. Os oeddech chi wedi gyrru heibio prif adeilad y Cyngor, un ai yng Nghaerfyrddin, Llanelli neu Rydaman, byddech chi wedi gweld baner wahanol i'r arfer yn cyhwfan. Un faner las golau oedd hi, gyda'r ddau air 'Heddwch' a 'Peace' arni. Dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor godi'r faner heddwch uwchlaw

adeiladau'r Cyngor. Mae Cyngor Tref Caerfyrddin wedi codi'r faner heddwch ers blynnyddoedd ar y dyddiad arbennig hwn, ond mae ein Cyngor Sir goleuedig wedi penderfynu ei fod am nodi Diwrnod Heddwch y Byd yn swyddogol.



Cynhaliwyd 'Hanner Awr o Heddwch' ar y Clos Mawr ar y dydd



Sadwrn, a gwahoddwyd meiri trefi ac ardaloedd eraill o fewn y Sir, a braf oedd gweld cynrychiolaeth helaeth yno. Croesawyd pawb gan y Maer, Jeff Thomas, ac wrth i Gôr Meibion Caerfyrddin ganu 'Gwahoddiad'

codwyd y faner gan y Maer.

Cafwyd cyfraniad hyfryd wrth i ensemble Ysgol Bro Myrddin ganu fersiwn gywain o 'Bridge Over Troubled Water', a chyfrannodd Lois Campbell araith fendigedig yn pwysleisio'r ffaith fod ein pobl ifanc ni yn dyheu am heddwch, ac am greu gwell byd. Cyfeiriodd at y datblygiadau diweddar a neges Greta Thunberg yn arbennig. Llywiodd Peter Hughes Griffiths y cyfan yn hyderus fel arfer, a chyfeiriodd Cadeirydd



Cymdeithas y Cymod Caerfyrddin, Mererid Hopwood at bwysigrwydd gweithredu i greu heddwch.

Clowyd y cyfan gyda gweddi gan Gaplan y Maer, y Parchedig Beti-Wyn James.

CÔR MEIBION CAERFYRDDIN CYNGERDD BLYNYDDOL 2019

**Artistiaid Gwadd
Drybook & District Ladies Choir
Villari Duo (ffliwt/ fiolin)**

**Dydd Sadwrn 2 Tachwedd 2019 – 7pm
Eglwys Crist, Caerfyrddin**

Tocynnau: £10

Huw ☎07528 719343 / Dylan ☎07751 500944

Siop y Pentan / Wrth y Drws



**CYMDEITHAS DDIWYLLIADOL
CAPELI HEOL AWST A SMYRNA**

**CYNGERDD CÔR MEIBION MACHYNLLETH
Nos Sadwrn, 12 Hydref 2019 – 7 o'r gloch
yn Heol Awst**

Elw at Uned Cancr y Fron, Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli

CWIS HYDREF



Mae pob ateb yn dechrau gyda'r llythyren 'H'

Mae'r atebion i gyd yn y Beibl

1	H							
2	H							
3	H							
4	H							
5	H							

Cliwiau

1	Un o dduwiau mwyag poblogaidd Gwlad Groeg. Fe oedd duw huawdledd a dyna pam y cyfarchwyd Paulc wrth cyr enw hwn. (Actau 14:12)
2	Y Môr _____. Gelwid felly oherwydd ei halltrwydd. (Genesis 14:3)
3	Shad-dai mewn Hebraeg (Salm 91:1)
4	<i>Caiff ei enwi'n aml fel creadur heini, buan</i> (Eseia 35: 6)
5	<i>Fe'i dilynir gan y geiriau 'yn y goruchaf'</i> (Mathew 21:9)

***Rhowch gynnig arni – a dod i adnabod y Beibl yn well!
Atebion yn y rhifyn nesaf***

ATEBION CWIS MEDI

***1. Magl 2 Methwsela 3 Midin 4 Myrddiwn
5 Manna***

TUDALEN BLAEN

Rheswm Heledd Tomos dros ddewis y geiriau 'Yr un fath gyda chi: Dych chi'n teimlo'n drist ar hyn o bryd....' yn Efengyl Ioan.

Dro ar ôl tro, y geiriau yma roeddwn i'n dychwelyd atynt ar ôl i Cai, ein babi bach, farw.



Mae'n siŵr fy mod yn chwilio am sicrwydd mai nid dyma oedd diwedd ein taith, er bod ein hamser gyda'n gilydd ar y ddaear wedi dod i ben.

Chwilio am obaith a chofio mai Iesu sy'n rhoi'r gobaith i ni mewn bywyd.

Fel y gwyddom, mae cariad a galar yn cydreddeg â'i gilydd mor ddwfn. Byddwn ni i gyd rywdro yn ein bywydau yng nghanol storm galar ond fel Cristnogion mae gyda ni'r gobaith o lawenydd eto un diwrnod.

Orig! gan Gai Toms a'r Banditos

Nos Iau, 14 Tachwedd 2019 – 7.30
Theatr y Lyric Caerfyrddin

Mae Orig Williams / El Bandito wedi cario'r ddraig i bedwar ban byd. Dyn ffair, dyn reslo, dyn teulu, dyn mentro. Mae Gai Toms wedi cyfansoddi albwm sy'n mynd â chi ar daith drimbwl-drambwl o fywyd Orig, o 'Balmant Aur' Ysbyty Ifan i'r rymbl yn y jyngl yng Nghalabar, Nigeria. Dyma gyfle arbennig i weld perfformiad byw o'r albwm a noson fydd yn ddathliad o fywyd un o'n heiconau cenedlaethol.



Tocynnau: ☎ 0345 226 3510:

TIPYN O BENBLETH

Ces fenthyg llyfryn diddorol yn ddiweddar o'r eiddo Malcolm Jones, llyfryn yn dwyn y teitl *Gweddio'r Cerfluniau – Llyfryn y Grawys* a ddaeth i olwg dydd drwy Esgobaeth Bangor. Rhannwyd y llyfryn yn chwe phennod ac mae yna



gerflun yn gysylltiedig â phob pennod. Casgliad o fyfyrddodau yw'r penodau.

Yr enw ar yr wythnos gyntaf yw *Y Forwyn Fair ar Gerdded – Ffordd y Ffydd* a chrëwyd y cerflun bendigedig o drawiadol gan y cerflunydd enwog **Elizabeth Frink**. Fe'i ganwyd ar 14 Tachwedd 1930 a bu farw ar 18 Ebrill 1988 ac mae'n enwog fel cerflunydd ac argraffydd. Roedd hi wrth ei

bodd yn portreadu pobl ac anifeiliaid ac fe'i hanrhydeddwyd yn Fonesig am ei gwaith.

Gellir gweld y cerflun ar dir Cadeirlan Caersallwg (Salisbury). Mae'n gerflun o lawn maint a dangosir y Forwyn yn brasgamu'n benderfynol i ffwrdd o adeilad yr eglwys.

Yr hyn a'm trawodd a'm haflonyddu oedd pam i Elizabeth Frink osod y cerflun â'i gefn at yr Eglwys a'r Forwyn yn brasgamu'n benderfynol i ffwrdd o'r adeilad. Pam nad yw'n wynebu'r Eglwys?



Ceir sawl dehongliad, wrth gwrs, a'r dehongliad cyntaf a ddaeth i mi oedd tybed a oedd hi'n brasgamu am ei bod wedi'i siomi a'i



dadrithio gan yr Eglwys a'i threfniadaeth cydymffurfiol – y pwyslais ar ddefodau a seremonïau? Yn ei siom gwelir y Forwyn yn cefnu ar y cyfan.

Ond mae dehongliad arall, llawer mwy cydnaws â'r Cristion, sef ei bod yn brasgamu'n benderfynol am iddi gael ei hysbrydoli o'r newydd gan yr Eglwys, wedi'i thanio o'r newydd ac roedd hi'n benderfynol o rannu'r newyddion da o lawenydd mawr' gyda'r byd y tu allan i furiau'r Eglwys.

Gwelodd yr angen i gyhoeddi'r newyddion da ar frys ac ar fyrder a dyna bwysigrwydd y brasgamu. Cafodd y Forwyn fendith ac fe'i hadfywiwyd fel roedd hi am i ni gael yr un profiad. Yn sicr, dyna farn y Cristion.



Ble rydyn ni'n sefyll? Ydyn ni â'n cefn at y capel neu a ydym yn brasgamu allan drwy'r drysau â'r newyddion da i'n cyd-fforddolion?

DRUDWEN

gan

Kate Driver Jones

Dydd Mercher a Dydd Iau 23 a 24 Hydref 2019 – 7.0pm

Theatr y Ffwrnes

SyrCAS, theatr gorfforol a cherddoriaeth sy'n adrodd hanes troellog y ddewines Drudwen, a'r efeilliaid diniwed yr olwg mae hi'n ei ddarganfod mewn coedwig. Gwledd i'r synhwyrau gyda champau prydferth yn yr awyr, comedi corfforol a cherddoriaeth fyw afaelgar. Cyflwyniad dwyieithog.



Tocynnau: ☎0345 226 3510

AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN



Gwnaethpwyd casgliad yn ystod oedfa Dydd Gŵyl Dewi yn gynharach eleni at brynu Beiblau ar gyfer plant tref Caerfyrddin. Bu Beti-Wyn (Cadeirydd Pwyllgor Oedfa Gŵyl Ddewi), Corey a Catrin Hampton (Swyddogion Plant /Ieuentid a Theuluoedd gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Sir Gâr) yn arwain sesiwn ar y Beibl yn Ysgol Y Dderwen ac yn cyflwyno Beibl yr un i ddisgyblion Blynnyddoedd 4 a 5. Diolch i eglwysi Cymraeg tref Caerfyrddin am wneud hyn yn bosib.



Ifanc@Priordy

Diolch!

i bawb a fu'n cymryd rhan yn y gwasanaeth yng Nghartref Erw Hir. Clywais eich bod yn wych!

PIP

Clywed hefyd eich bod chi'r PIP's wedi cael amser da yng Nghaffi Pethau Da. Diolch i bawb a ddaeth. Lluniau ac adroddiad mewn man arall yn y rhifyn hwn o Bapur Priordy.

Hwyl Mawl Medi

Unwaith eto, diolch i bawb a ddaeth - fe gawsom wasanaeth bywiog neis, ac roedden ni allan o fewn awr!



Diolchgarwch

Bore Sul, Hydref 6 - ein cwrdd diolchgrawch. Rhoddion l'r Banc Bwyd, os gwelwch yn dda.

Nadolig!

Bydd sgript y Gwasanaeth Nadolig yn cael ei dosbarthu ar Dachwedd 10. Ymarferion Tachwedd 17, 24, Rhagfyr 1 ac 8. Gwasanaeth Nadolig, Rhagfyr 8 am 2 y prynhawn.

	Ysgol Sul a	PIP
Hydref 6	Diolchgarwch	Doiolchgarwch
Hydref 13	Sgiliau Syrcas	Sgiliau Syrcas
Hydref 20	Ysgol Sul	PIP
Hydref 27	Hanner Tymor	Hanner Tymor
Tachwedd 5	Cwrdd Plant Sul yr Urdd	Cwrdd Plant Sul yr Urdd

Hwyl am y tro!


Beti-Wyn





AHMED, MAE'N UN OHONOM

UN o Syria yw Ahmed Al Dalli yn wreiddiol, bu'n byw yn Aleppo gyda'i deulu hyd nes yr aeth pethau'n rhy wael iddyn nhw aros yno oherwydd y brwydro ac yn 2013, symudodd y teulu i Libanus i



fyw. Buont yn byw yn Beirut am bedair blynedd cyn dod i Brydain yn 2017. Bu Ahmed yn gweithio fel dylunydd esgidiau gyda chwmni gwneud esgidiau a bagiau yn y ddinas.

Bellach mae Ahmed yn byw yn Nhŷ Capel Eglwys y Priorddy yng Nghaerfyrddin gyda'i fab, Mustafa (18) a'i ferch, Sidra (14), maen nhw wedi bod yno ers dwy flynedd. Mae'r teulu'n hapus iawn yma ac wedi cael croeso mawr yn y dref.

Cyfrifiaduron yw diddordeb Mustafa ac mae wrthi'n astudio yng Ngholeg Sir Gâr, tra bod Sidra yn yr ysgol uwchradd yng Nghaerfyrddin. Mae hi'n hoff o gelf ac yn canu'r piano ac am fod yn feddyg. yn y

pen draw.

Penderfynodd Ahmed wneud cais am loches er mwyn dod i Brydain am fod bywyd mor anodd yn Libanus. Daethant draw i Birmingham er mwyn i'r teulu gael eu prosesu gan y Swyddfa Gartref cyn dod i Gaerfyrddin.

Mae'r teulu wedi cael hyd i fywyd newydd yma yng Nghymru ac maen nhw'n setlo'n dda yng Nghaerfyrddin. Mae Ahmed yn cael gwersi Saesneg yn y dre ac mae'n medru ambell i air yn Gymraeg hefyd, ar ben hynny mae'n gwirfoddoli yn siop Oxfam, Caerfyrddin, mae'n cyfeirio at y bobl sy'n gweithio yno fel 'fy nheulu Oxfam'. 'Dydw i ddim yn gweld eisiau Syria na Libanus chwaith, does dim ar ôl yno i mi. Dyma fy nhref, fy ngwlad a fy nheulu bellach.'

Yn ddiweddar, cafodd Ahmed gyfle i siarad am ei brofiadau yn y Cynulliad ar gais Cytûn ac yn ei araith fe ddywedodd, *'Nid oes geiriau i ddisgrifio sut dw i'n teimlo tu fewn.*

Wrth holi Beti-Wyn am benderfyniad eglwys y Priordy i gynnig y tŷ capel fel cartref i ffoaduriaid neu geiswyr lloches, dywedodd hi, 'I ni fel eglwys, roedd yn gwneud synnwyr llwyr i gynnig y cartref gwag hwn oedd gennym at wasanaeth Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae pob cyngor sir i fod i gynnig lle i geiswyr lloches. Fe gysyllton ni â'r cyngor ac yna daeth swyddogion draw i weld a oedd y cartref yn gymwys ac yna roedden nhw'n sicrhau bod y lle wedi'i addurno a'i ddodrefnu'n safonol – fe gymeron nhw ofal o bob dim. Mae'r Cyngor wedi bod yn wych, yn cerdded gyda ni bob cam o'r ffordd, yn ein cynnal ni ac yn cynnal teulu Ahmed hefyd. Y mae'r eglwys yn derbyn rhent oddi wrth y cyngor ond mewn gwirionedd, rydym ni'n derbyn llawer mwy nag arian drwy wybod ein bod ni'n cynorthwyo'n cyd-ddyn.

'Mae gennym ni'r parch a'r edmygedd mwyaf tuag at Ahmed a'i deulu, maen nhw mor ddewr ac maen nhw wedi setlo mewn i fywyd yng Nghaerfyrddin yn ardderchog. Maen nhw'n rhan o deulu'r Priordy bellach ac yn rhan o'r dref.' Yn ogystal, mae Ahmed a'i deulu'n rhan o deulu'r Mosg yng Nghaerfyrddin.

Dywedodd Ahmed bod teulu ei frawd yn dal i fyw yn Libanus, yn fwy na dim fe hoffai pe bai ei frawd a'i deulu'n medru dod i Brydain er mwyn dianc o dryblieth y wlad. Mae'n siarad â'i deulu yn Libanus bob wythnos ar y ffôn ac yn gweld eu heisiau'n fawr.

Yn ôl Beti-Wyn,
*'Mi fyddwn i'n
annog pob
eglwys i edrych
ar y posibilrwydd
o fod yn agored i
groesawu
ceiswyr lloches
i'w cymuned.
Mae wedi bod yn
fendith fawr i ni
fel eglwys yn y
Priordy.'*



Cefnogi a chroesawu ceiswyr lloches a ffoaduriaid yw ymgyrch Rhwydwaith Merched Undeb yr Annibynwyr Cymraeg eleni. Mae sawl ffordd o wneud hynny; drwy gynnig llety, os oes yna fodd i wneud, naill ai fel eglwys neu fel teuluoedd unigol. Mae modd cefnogi drwy godi arian i gefnogi sefydliadau sy'n cynnal ceiswyr lloches neu drwy gynnig eich amser i wirfoddoli gyda mudiadau sy'n gweithio gyda cheiswyr lloches.

Diolch i Elinor-Wyn am yr hanesyn diddorol hwn a ymddangosodd am y tro cyntaf yn *Y Tyst a Bwletin y Rhwydwaith Merched*.

A llongyfarchiadau mawr i Ahmed, sydd bellach yn gweithio fel gwirfoddolwr gydag Oxfam, ar gael ei enwebu'n ddiweddar yng nghategori *Gwirfoddolwr y Flwyddyn yn Gwobrau Cymru - Cenedl Noddfa 2019, sef gwobrau* i gydnabod ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd wedi rhagori mewn gwahanol feysydd. Cynigiwyd y gwobrau hyn am y tro cyntaf eleni.

Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth Dydd Sul, 20 Hydref 2019

yng

Ngwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin

am 1.00 o'r gloch yn brydlon.

Pris: £18 y pen

Enwau ar y daflen yn y cyntedd cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda

Trefnir gan Gapel Cana



ELIS JAMES

Sioe Rhagolwg

Dydd Mawrth 15 Hydref 2019 – 8.00pm

Theatr y Ffwrnes

Ffilmio S4C

Dydd Sadwrn 9 Tachwedd 2019 – 17.30

Theatr y Lyric

Tocynnau: ☎07751 500944



PIP YN PETHAU DA



YR YSGOL SUL YN ERW HIR



Gwasanaeth Erw Hir – 22 Medi 2019

**Dyma gyfle i ni fwynhau a gwerthfawrogi'r
gwasanaeth a gyflwynodd Plant yr Ysgol
Sul yng Nghartref Erw Hir ar y thema
Diolch**



Mali

Diolch am y gwahoddiad i ddod atoch chi eto eleni.
Rydym yn agosáu at gyfnod Diolchgarwch, ac mae'n gyfle i ni ddiolch i
Dduw am bopeth.

Beca

Ac er bod nifer o heriau yn ein hwynebu, mae gennym ni gymaint i fod
y ddiolchgar amdano.....

Ethan

Rydyn ni i gyd yn ddiolchgar am y bobl sy'n ein caru ni. Rydyn ni'n
ddiolchgar am dad a mam, am fam-gu a thad-cu, am frawd a chwaer,
ac am ein teulu oll. Rydyn ni'n gwybod pa mor bwysig ydy cariad.

Anna

*Diolch yn fawr yn Gymraeg. Thank you very much yn Saesneg. Merci
yn Ffrangeg. Gracias yn Sbaeneg. Danke yn Almaeneg. Pa bynnag
iaith rydym yn ei defnyddio, mae'n bwysig dweud diolch a theimlo'n
ddiolchgar.*

(Yn dal lluniau -)

Iestyn – Diolch am ffrindiau a theulu

Luned – Diolch am fwyd a diod

Olwen – Diolch am yr ysgol

Mali – Diolch am gariad Duw

Emyn 1 - Diolch iti lor am ddiwrnod braf – Caneuon Ffydd 150

Mac

Duw wnaeth y byd, y gwynt a'r storm a'r lli. Ond dyw e ddim yn rhy
fawr i'n caru ni

Duw wnaeth y sêr sy'n sgleinio acw fry. Ond dyw e ddim rhy bell i'n
caru ni

Duw ddaeth un tro i'w fyd, daeth yma'n fyw. A dangos wnaeth i ni mai
cariad yw.

Emyn 2 - Cariad Crist sydd yn rhyfeddol – Caneuon Ffydd 412

Miriam, Beca, Olwen a Luned – pedwarawd (ac unrhyw un arall sydd eisiau ymuno!)

Emyn 3 – Dyro gân dan fy mron, gad im foli – Caneuon Ffydd 397

Miriam

Gofynnwn i Grist fyw yn ein calonau trwy ffydd.. Gofynnwn am gael deall mor aruthrol o fawr ydy cariad Duw – mae'n lletach, yn hirach, yn uwch ac yn ddyfnach na dim byd arall!

Tomos

Gweddïwn:

Ein Tad, diolch i ti am bob ryw newydd dydd a ddaw; diolch am lu cyfeillion, am waith ac am yr harddwch a geir mewn lliw a llun. Diolch am londer, cerdd a goleuni. Ac yn fwy na dim diolch am gariad, cariad tad a mam a dy gariad di, cariad Duw. Diolch am anfon Iesu i'r byd i ddangos y cariad mwyaf un i ni. Amen.

Ethan

Diolch eto i chi am y croeso'r bore 'ma. Byddwn yn gorffen y gwasanaeth drwy 'r emyn '*Cofia bod amser, cofia bob tro*' sy'n ein hatgoffa i beidio ag anghofio dweud DIOLCH.

Emyn 4 – Cofia bob amser, cofia bob tro – Caneuon Ffydd 145

**Ac maen diolch ninnau'n fawr i'r plant ac i'r Dr
Llinos Roberts ac Iwan Evans am ofalu
amdanynt.**

**Hefyd, wrth gwrs, am y croeso mawr a gafwyd yn
Erw Hir.**



‘Agor y Gair’



***Cyfres Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg
yng Nghaerfyrddin***

**Boreau Mercher 9, 16, 23 Hydref a 6 Tachwedd 2019
11.00 tan 12.00**

Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Croeso cynnes iawn i bawb

AMSER DA

yn



Cafodd PIP (Pobl Ifainc y Priordy) fore arbennig yng Nghaffi Pethau Da ar Ddydd Sul 22 Medi.

Brecwast o rôls cig moch a croissants – diolch i Alison Parsons a'i staff, a Chwis wedi'i lunio gan Elinor Wyn Reynolds. Roedd dwy rownd, un ar lemurs (gwir neu gau) ac un ar yr Annibynwyr (amlddewis). Jac Thomas enillodd gyda'r nifer uchaf o bwyntiau ond roedd pawb yn cael barryn o siocled am eu hymdrechion. Diolch i Elinor am ganiatâd i gynnwys y Cwis Annibynwyr ym Mhapur Priordy'r tro hwn. A diolch hefyd i Elinor ac Eleri Thomas am eu help gyda'r trefniadau. .


CWIS YR ANNIBYNWYR

1	Pryd cychwynodd Undeb yr Annibynwyr	(a) 1772 (b) 1872 (c) 1972
2	William Rees oedd enw cadeirydd cyntaf yr Undeb. Ond beth oedd ei enw barddol?	(a) Gwilym Hiraethog (b) Garmon Hwyllog (c) Gwallter Mechain
3	Ymhle cynhaliwyd cyfarfodydd cyntaf yr Undeb?	(a) Caernarfon (b) Caerdydd (c) Caerfyrddin
4	Sawl capel / eglwys sy'n aelodau o Undeb yr Annibynwyr?	(a) 4,333 (b) 433 (c) 43
5	Beth yw enw papur newyddion Undeb yr Annibynwyr sy'n ymddangos yn wythnosol?	(a) Y Tyst (b) Y Goleuad (c) Seren Cymru
6	Beth yw enw swyddfa Undeb yr Annibynwyr?	(a) Tŷ'r Gwrhyd (b) Tŷ John Penri (c) Tŷ ar y Tywod

7	Ymhle mae swyddfa Undeb yr Annibynwr?	(a) Llansteffan (b) Llansadwrn (c) Llansamlet
8	Beth yw enw Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg?	(a) Denzil Rees (b) Tracey Rees (c) Dyfrig Rees
9	Beth yw enw Llywydd Undeb yr Annibynwyr y flwyddyn nesaf?	(a) Beti-Wyn James (b) Washington James (c) Jessie James
10	Sawl gweinidog sy'n fenyw gydag Undeb yr Annibynwyr?	(a) 33 (b) 23 (c) 13

**Marciau llawn i bawb – gobeithio!
Atebion y tro nesaf.**

BLYCHAU YN Y CYNTEDD



**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R
BLWCH CETRYS
YN Y CYNTEDD**

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 27 Tachwedd 2019 am 7 yn y Ffestri

Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda.

**Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin
Caerfyrddin?
Trowch at: cyfundeb.com?**



Malcolm M Jones

TREM YN ÔL

MAHATMA GANDHI

(2 Hydref 1869 – 30 Ionawr 1948)



EISOES yn Nhachwedd 2018 tynnwyd sylw ym Mhapur Priordy gan un o aelodau hynaf yr Eglwys (ymhell yn ei 90au!) Mrs Irene Williams at arwyddocâd 2 Hydref 2019 at Ddathliad 150 o flynyddoedd ers geni Gandhi.



Cyfeiriodd at hyfrydwch presenoldeb ei meibion a'i ŵyr yn nadorchuddiad cerflun efydd o Gandhi ar Rodfa Lloyd George yng Nghaerdydd ar ei ben-blwydd yn 2017 - Diwrnod Heddwch Ryngwladol Di-Drais. Wedi'r cyfan, yr athrylith a'r awdur y Parchedig Athro Cyril Williams (cyn-Weinidog Y Priordy), ei diweddar ŵr, a

ddysgodd Sanskrit er mwyn trosi i'r Gymraeg y llyfr Sanctaidd ('Bhagafyd Ghita' neu'r '*Fendigaid Gân*') sydd yn llaw Gandhi yn y cerflun, yn ogystal â chyfrannu gymaint at ddeall Credoau'r Dwyrain.

Cyfeiriodd hi hefyd at sylw treiddgar Vimia Patel, aelod o'r Cyngor Hindwiaid, at arwyddocâd bywyd a gwaith y Mahatma fel '*an inspiration to current and future generations to live together in peace and harmony and to treat each other with love and respect irrespective of one's religion, culture or race*'.

Ac eto, nid hawdd i'n hoes ni yw dirnad arwyddocâd y ffactorau gwahanol a saernïodd syniadau a gweithgaredd y gŵr arbennig hwn.



Bu Gandhi fyw a brwydro'n anterth ac yn oriau gwanhau grym Ymerodraethau Ewrob dros bobloedd y Byd - yn y cyfnod, er

enghraifft, pan oedd Ymerodraeth Prydain yn ymestyn ar Fap y Byd o'r Wawr yn y dwyrain hyd y Machlud yn y gorllewin. Breuddwydion i'r dyfodol pell fyddai trechu hiliaeth a gormes gan ryw Mandela, neu goncro newyn, tlodi, afiechydon neu anghyfiawderau 'r Trydydd Byd.

Ganwyd Gandhi yng nghorllewin India yn Porbander, yr olaf o bedwar plentyn i deulu masnachwyr a chrefftwyr (y Faisayes) a oedd yn israddol i'r Brahminiaid (yr Offeiriaid Hindŵ) a'r Ksatryas (y milwyr) ond yn uwch na'r Swdras (y Werin) a'r Digyffwrdd (y lluoedd enfawr). Roedd rhwygiadau enbyd hefyd rhwng Hindŵ a Mwslim.



Plentyn swil fu Gandhi yn yr ysgol, yn ofni plant eraill a rhai athrawon, a mathemateg. Pan oedd yn dair ar ddeg, ac yn ôl y drefn, trefnwyd iddo briodi - ac ar yr un achlysur â phriodasau ei frawd hŷn a'i gefnder. Cafodd ergyd drom cyn gorffen ysgol wrth golli'i dad, ond daliodd ymlaen ac yn groes i'r arfer danfonwyd e i Loegr i astudio'r gyfraith. Tra oedd yn gwneud hynny, collodd ei fam a'i blentyn a hiraethai'n fawr am ei briod. Daeth cysur iddo wrth ddysgu am Gristnogaeth, yn enwedig y Bregeth ar y Mynydd a'r egwyddor o dalu drwg â daioni, fel yng nghrefydd yr Hindŵ meddyliodd.

Dychwelodd i India. Ond chafodd fawr o lwyddiant fel cyfreithiwr yno, a derbyniodd gynnig gwaith gan gwmni masnach - fel llawer o'i gyfoeswyr - yn Ne Affrig . Am dros ugain mlynedd wynebodd broblemau ac erchyllerau yn aml, tebyg i'r rhai a gafodd gynt yn India - hiliaeth, camdriniaeth caethwasiaeth, tlodi, newyn, sarhad wrth geisio cerdded ar balmant neu deithio ar drenau neu chwilio am loches.


Cynyddodd y protestio, nes ym Medi 1906 yn Johannesburg daeth miloedd ynghyd a charcharwyd Gandhi, er iddo sicrhau gweithredu'n ddi-drais - yn ôl egwyddorion a alwodd Satyagraha. Gwelodd gyfle i ledaenu'i neges wrth sefydlu papur newydd 'Indian Opinion' yn Natal. Enillodd barch y Cadfridog Smuts a daeth peth gwelliannau gyda'r Indian Relief Act.

Wrth i'r Rhyfel dorri allan yn 1914, gwelodd gyfle i ddychwelyd i India i frwydro dros hawliau teg i'w bobl, ac enillodd gefnogaeth mawr tra oedd dan sylw barcud yr Heddlu. Er mwyn cynnal corff ac enaid sefydlodd ffarm gymunedol yn Gujarat gan droi'i gefn ar fywyd bras a rhannu popeth, annog cefnogaeth i grefftau traddodiadol a sgiliau gwaith llaw cefn-gwlad yn hytrach na hybu gyrfaoedd fel cyfreithwyr, meddygon, athrawon neu newyddiadurwyr - swyddi a welodd flas Prydeindod arnynt.

Brwydr ddiymdroi, caledi, gwrhydri arwrol a moesoldeb fu bywyd i Gandhi yn India o 1918 hyd 1948, a dydd ei farwolaeth.

Profodd yn bersonol orthrwm tiffeddianwyr Seisnig ar bobl cefn gwlad wrth droed yr Himalaia yn y 1920au pan gadwyd pris cynnyrch indigo'n bwrpasol isel a phan fu cwymp am y galw am haearn, dur, glo a gwlan. Yn ogystal â diweithdra bu epidemig y fflw ym 1918 yn ddigon i ladd dros dair miliwn ar ddeg a chwalwyd unrhyw ffydd a fu gan Gandhi ym Mhrydain.

Asgwrn cynnen arall fu Deddf Rowlatt wrth roi hawl i garcharu'n unig ar sail drwgdybiaeth. Tyfodd y gwrthdaro ac yn Amritsar yn Ebrill 1918 yn wyneb hynny penderfynodd y Cadfridog Dyer ('Achubwr Pwnjab y gelwid wedyn!) orchymyn i'w fyddin danio ar y dorf o 10,000 am anwybyddu gorchymyn a oedd yn Saesneg yn unig - a'r canlyniad echrydus oedd lladd 379 mewn 10 munud a chlwyfo dros 1,200. Parharodd rhagor o saethu am ddau fis arall a charcharwyd eraill ac ataliwyd cyflenwadau o ddŵr a thrydan. (Y llynedd, yn 2018, nodwyd canrif ers y gyflafan.)



Fel roedd y gwrthdystio yn erbyn yr Ymerawdwyr, yn dwysáu, cynyddai'r alwad am ennill hunanlywodraeth i India gan Gandhi a'i ddilynwyr. Erbyn 1924, er ei fod yntau'n wael o iechyd, cafodd ei erlid a'i garcharu am greu terfysgaeth.

Trodd Gandhi wedyn at geisio lleddfu'r ormes ar ei bobl wrth osgoi'r dreth ar halen trwy ddull heddychlon, sef arwain gorymdaith o 240 milltir at y môr er mwyn berwi'r dŵr a chreu halen yn naturiol. Fe'i dilynwyd gan 5 miliwn, gan danio dychymyg y Byd.

Enillodd Gandhi ei le fel arweinydd moesol ('Mahatma') mudiadau fel Cyngres Genedlaethol India gyda'i syniadau a'i weithredoedd. Yn ei feddwl chwimwth, breuddwydiodd am India unedig heb rwygiadau cymdeithasol ('caste') a chasineb crefyddol, heb ddiweithdra a thlodi, gyda chyflleoedd i'w bobl ddatblygu talentau, yn ferched a dynion. Llwyddodd yn rhyfeddol i sicrhau protestiadau torfol, heddychlon, effeithiol - ac anodd oedd i wleidyddion Prydeinig ddelio ag e.

Ofer fu ymdrechion y 'Round Table Conferences' at gyfamodi. Arf pennaf Gandhi oedd ymprydio a gweithredu'n ddirais. Ofnai'r awdurdodau y byddai India'n codi mewn gwrthryfel, yn enwedig y perygl o Mahatma'n newynu a marw.

Yn araf deg ym Mhrydain newidiodd agweddau gwleidyddion. Lle bu Churchill er enghraifft, mor wrthwynebus i Gandhi, ac ar ôl profiadau'r Ail Ryfel Byd, dealodd Attlee a'r Llywodraeth Lafur ar ôl 1945 fod yn rhaid osgoi cyflafan ac ym 1947 mynegwyd y syniad o ffafrio trafod y posibilid o hunanreolaeth i India.

Ac eto, fel y deallwyd gan Gandhi ers tro roedd gwrthdaro sylfaenol rhwng yr Hindwiaid a'r Mwslimiaid ac wedi i 16,000 gael eu lladd mewn brwydrau ar strydoedd Calcutta ym 1947 teithiodd Gandhi'n ddiflino ar hyd a lled India i geisio annog cymod a heddwch. Ond ym Mehefin 1947 rhannwyd y wlad yn ddwy 'Dominiwn' hunanlywodraethol - India a Pakistan.



Pan oedd ar ei ffordd i Gwrdd Gweddi yn ei Ardd ei hun ar 30 Ionawr 1948 y saethwyd Gandhi'n - gan Hindw ifainc.

DDYDDIAU' ddiweddarach, mynegodd ei olynydd, Pandit Nehru, *'Mae'r golau wedi diffodd ac eto, y golau hwnnw fydd yn goleuo'r wlad mewn mil o flynyddoedd'.*

Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org



Capel y Priordy Caerfyrddin

Gweinidog: Y Parchg Beti-Wyn James BD
ebost: beti.wyn@icloud.com
Ffôn: 01267 237696

At Aelodau'r Priordy

Annwyl Ffrindiau

Ysgrifennaf atoch i'ch gwahodd yn gynnes iawn i ymuno â'r gynulleidfa mewn darllediad o *Dechrau Canu Dechrau Canmol* a fydd yn cymryd lle ar **nos Sul, 17 Tachwedd am 6.30 yn Eglwys San Pedr, Caerfyrddin**. Bydd y drysau'n agor am 6 o'r gloch.

Bydd dwy raglen yn cael eu ffilmio, a'r gyntaf ohonynt, a fydd dan olau kannwyll, yn rhaglen arbennig ar gyfer Yr Adfent. Rwy'n siŵr y bydd yn achlysur llawen iawn, ac fe fydd y carolau'n lled gyfarwydd i ni i gyd. Meinir Richards fydd yn arwain a Huw Tregelles Williams wrth yr organ.

Cynhelir ymarfer yn **Eglwys San Pedr nos Lun 11 Tachwedd o 6.30 tan 7.30 yr hwyr**.

Bydd y rhaglenni ar gael maes o law a byddaf yn cysylltu â chi pan ddônt.

Yn y cyfamser gofynnaf yn garedig i chi ddiogelu; dyddiad. Byddai'ch cefnogaeth arferol yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr iawn gennym.

Roedd adborth ardderchog i'r rhaglenni yn y gyfres ddiwethaf a ddarlledwyd o Capel y Priordy.

Bydd y casgliad ar y noson at Bwyllgor Apêl Caerfyrddin a'r Cylch, Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2021.

Yn gywir

Y Parchedig Beti-Wyn James



Papur Priordy'n cofio

J J WILLIAMS

1869-1954

Bardd-Bregethwr



Ryn ni yny Priordy, fel sawl cynulleidfa arall, yn hoff o ganu ambell un o emynau John James Williams.

Fe'i ganed 150 o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn ar 8 Hydref 1869, mewn bwthyn bach yn Nhaf Gwynion, ger Tal-y-bont yng Ngheredigion, yn fab hynaf o 12 plentyn i William ac Elizabeth Williams. Roedd y tad yn aelod gyda'r Presbyteriaid yng Nghapel y Garn a'r fam gyda'r Annibynwyr ym Methel, Talybont. Symudodd y teulu o Geredigion oherwydd prinder gwaith yn y mwynfeydd plwm i Benrhiwceiber ac yna Ynysybwll.

Dechreuodd J J Williams bregethu yn y Tabernacl, Ynysybwll tra oedd yn gweithio fel colier. Aeth wedyn i Academi Pontypridd, Coleg y



Brifysgol Caerdydd a'r Coleg Coffa Aberhonddu. Cafodd ei ordeinio gan yr Annibynwyr ym Methania Abercynon a bu'n weinidog hefyd ym Rhymni, Pentre yn y Rhondda ac yna rhwng 1915 a 1944 yn y **Tabernacl Treforys**. Pregethodd Elfed yn ei gyrddau sefydlu yn y Tabernacl.

Yn bregethwr poblogaidd iawn, cafodd ei ethol yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ym 1935. Bu'n olygydd *Y Dysgedydd*, cylchgrawn misol ei enwad, a *Chongl y Beirdd* yn *Y Tyst* am gyfnod. Bu'n un o olygyddion *Y Caniedydd*

Cynulleidfaol Newydd, *Caniedydd Newydd yr Ysgol Sul* a'r *Caniedydd*.

Enillodd y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol ddwywaith – yng Nghaernarfon ym 1906 gyda'i awdl delynogol *Y Lloer* ac yn Llangollen ym 1908 – awdl er cof am y bardd Ceiriog. Bu'n feirniad ym mhrif gystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol ac yn Archdderwydd rhwng 1936-9. Cyfansoddodd ddramâu cerdd ysgrythurol, sef *Ruth* ac *Esther* a chyhoeddodd gyfrol o straeon byrion sef *Straeon y Gilfach Ddu* yn nhafodiaith Morgannwg yn portreadu bywyd y glöwyr. Ymddangosodd hefyd gyfrol o'i gerddi

Y Lloer a cherddi eraill. Cafodd rhai o'i gerddi eu gosod ar gân a dod yn adnabyddus, fel **Clychau Cantre'r Gwaelod**. Golygodd *Cerddi'r Bugail*, sef cyfrol o waith Hedd Wyn, y bardd a gollwyd yn Ffrainc ym 1917.



Tra bo Robert Rhys yn y gyfrol *Cwm Tawe* (*Cyfres y Cymoedd*) yn cydnabod doniau llenyddol J J Williams, mae'n barnu mai 'cnwd siomedig' a gafwyd ganddo o ystyried ei fod yn rhan o symudiad adfywiol ddechrau'r ganrif ddiwethaf mewn tri chyfrwng gwahanol, barddoniaeth, drama a'r stori fer. Mae hefyd, fel amryw o'i genhedlaeth yn agored i'r feirniadaeth o fod yn rhy sentimental ac anghynnilar adegau.

Ni fu taith bywyd yn rhwydd i J J Williams. Bu'n briod ddwywaith. Collodd ei wraig gyntaf ar enedigaeth mab a bu farw yntau o fewn blwyddyn a hanner i'w eni. Bu farw'i ail wraig tra oedd ym Mangor yn trosglwyddo cadeiryddiaeth yr Undeb i John Dyfnallt Owen. Bu yntau ei hunan farw 6 Mai 1954 ac fe'i claddwyd yn Nhreforys.

Mae chwech emyn gan J J Williams yn Caneuon Fydd, sef *Ymgrymwn ger ei fron* (41), *Bugail f'enaïd yw'r goruchaf* (112). *Molwn enw'r Arglwydd* (126), *Ynot, Arglwydd gorfoddelwn* (217), *Argwydd nef a daear* (219) ac *O disgyn, Ysbryd Glân* (596).

Fel teyrnged i J J Williams, dyfynnwn. bennill cyntaf ac olaf yr emyn *O disgyn, Ysbryd Glân* sydd, fel yr esbonia Delyth Morgans yn *Cydymaith Caneuon Ffydd* yn dwyn i ogof eiriau o Actau 2: 'Ac yn ddisymwth y daeth swm o'r nef, megis gwynt nerthol yn rhuthro, ac a lanwodd yr holl dy lle roeddynt yn eistedd.'

**O disgyn, Ysbryd Glân,
o'r nefoedd wen i lawr
i gynnu'r dwyfol dân
yn ein calonau nawr.**

**Tydi all ein glanhau
o'n beiau, fawr a mân;
gad inni fyth fwynhau
dy ddoniau, Ysbryd Glân**



DIOLCHGARWCH YR OFALAETH 2019



Y PRIORDY	
Bore Sul, 6 Hydref am 10	Oedfa Blant a Phobl Ifanc am 10 Gyda Beti-Wyn
Nos Sul 6 Hydref am 5	Oedfa Gymun <i>gyda'n</i> Hybarch Randolph Thomas a'n Gweinidog Swper i ddilyn <i>Rhoddion y Plant at Fanc Bwyd</i> <i>Caerfyrddin</i>
CANA	
Nos Iau, 10 Hydref am 7	Oedfa Bregethu Y Parchedig Kevin Davies Y Barri a Phenarth Swper i ddilyn
Dydd Sul, 13 Hydref am 1.30	Cwrdd Diolchgarwch y Plant a Chymun <i>gyda'r Gweinidog</i>
BANCYFELIN	
Dydd Sul, 13 Hydref am 3	Cwrdd Diolchgarwch y Plant a Chymun <i>gyda'r Gweinidog</i>
Bore Iau, 17 Hydref am 9.30	Cwrdd Diolchgarwch Ysgol Bancyfelin yn y capel.
Nos Iau, 17 Hydref am 7	Oedfa Bregethu Y Parchedig Nicholas Bee Swper i ddilyn

Mae croseo i bawb ym mhob un o'r gwasanaethau hyn



DYLETYSWYDDAU GOFALWR / GWRESOGWYR Y MIS



Hydref		Tachwedd	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Philip Jones	Gwynfor Davies	Philip Jones	Gwynfor Davies



BLODAU



Hydref	6		Tachwedd	3	
	13	Catrin Haf Williams		10	Mwynwen Jones
	20			17	
	27	Elerii Thomas		24	Gloria Evans



YMWELWYR



Med / Hydref	Thelma Evans a June Thomas
Tachwedd / Rhagfyr	Ein Gweinidog (Anrhegion Nadolig)



PARATOI'R BWRDD CYMUN



Hydref	6	Hwyr	Alison Parsons a Ffion Parsons
Tachwedd	3	Bore	Mari Jenkins a Thelma Evans



DARLLENWYR



Hydref	6		Tachwedd	3	
	13	Heledd Tomos		10	Llinos Jones
	20	Lleucu Edwards		17	June Thomas
	27	Nansi Hayes		24	Wyn Tegryn Evans



CYHOEDDWYR



Hydref	Eirlys Jones	Tachwedd	Philip Jones
--------	--------------	----------	--------------

RHAGOR O LUNIAU BORE COFFI MACMILLAN



COLLI W J EDWARDS

Gyda thristwch y clywsom y newyddion am golli'r



Parchedig W J Edwards, Bow Street, Aberystwyth a Gweinidog ein Gofalaeth rhwng 1992 a 2001 ar Ddydd Llun 30 Medi 2019 yn dilyn cyfnod go faith o anhwylder.

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Gwenda, ei briod, Nest. Lowri a Non, y merched, a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Cofiwn yn annwyl a gwerthfawrogol iawn am wasanaeth 'WJ' yn ystod ei gyfnod yma yng Nghaerfyrddin a'r cylch.

Cynhelir yr angladd ar Ddydd Mawrth 8 Hydref 2019 yng Nghapel y Garn, Bow Street am un o'r gloch. Gwasanaeth cyhoeddus yn y capel a chladdedigaeth breifat i ddilyn.

CYDYMDEIMLAD

Wrth i ni baratoi'r Papur ar gyfer ei gyhoeddi clywsom am gollu Mary Davies, mam ein Gweinidog, yn gynnwys Fore Gwener 4 Hydref 2019. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Walford Davies, ei gŵr, Beti-Wyn a'r merched a'r teulu cyfan yn eu colled a'u hiraeth.



DRWS AGORED

FESTRI'R PRIORDY

BORE IAU 24 Hydref 2019

Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11

Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys



DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Eleri Thomas, Mari Jenkins, Wynne Jenkins a'r Dr Llinos Roberts am y lluniau'r mis hwn.





BRAINT ar Fore Sul 5 Medi oedd cael bod yn dyst i fedydd Martha Nel, ail ferch i Catrin a Rhydian Evans, a chwaer i Greta Fflur ac ail wyres i Tudur Dylan ac Enid Jones, Roedd yr Oedfa dan ofal ein Gweinidog a hyfryd oedd gweld Y Parchedig John Gwilym Jones, hen dad-cu Greta, yn ei bedyddio. Cyflwynwyd y dystysgrif bedydd i'r teulu gan Gwenan Fflur ac Eiliw Mai.



Anfonwn ein cofion cynhesaf at Alwyn Jones sydd wedi bod yn yr ysbyty'n ddiweddar. Dymunwn yn dda iddo ac i bawb arall sy'n anhwylyd y dyddiau hyn

Y mis diwethaf buom yn llongyfarch ein hieuenctid ar eu llwyddaint yn arholiadau allanol yr haf. A dyma ychwanegu at restr yr enwau'r tro hwn – TGAU B10: Gwenan Jones, Betsan Elias, Carina Sidhu ac Elain Owen. Da iawn chi, ferched, ac ymddiheuriadau am beidio â'ch cynnwys ynghynt!

Mae Peter Hughes Griffiths a Meinir Lloyd wedi ymddangos sawl tro ar y rhaglen **Aur y Noson Lawen** ar **S4C**, lle mae Ifan Jones Evans yn twrio'r archif ac yn cyflwyno cyfres o glipiau. Ond yn un o'r rhaglenni hyn gwelwyd rhan o berfformiad Peter ar ei ymddangosiad cyntaf ar y Noson Lawen. Pryd a ble meddech chi? Wel yn Nhreriffith, Tre-wyddel ym 1983!



Yn ystod rhaglen **Dechrau Canu Dechrau Canol (DCDC)** ar **S4C** a recordiwyd yng Nghymanfa Ganu Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 yng Nghapel Soar Llanbedr Pont Steffan bu cyfweiliad rhwng Nia Roberts a Lyn Ebenezer yn Soar y Mynydd ac yn y cefndir gwelwyd clip o aelodau'n Gofalaeth ni'n gadael y capel yn ystod un o'n pererindodau. Hefyd ar **DCDC** o'r Sioe Frenhinol gwelwyd o leiaf un wyneb cyfarwydd iawn i ni yn y Priordy!

Ac roedd Elin Wyn a Sara Llwyd ymhlith y myfyrwyr a fu'n arddangos dillad newydd ar gyfer tymor newydd y coleg ar **Heno** ar **S4C**. Ffasiynol iawn!

Bu'r Dr Catrin Williams ar **Raglen Aled Hughes** ar **Radio Cymru**

yn siarad am greiriau crefyddol, gan roi sylw i'w gwreiddiau, eu harwyddocâd mewn crefyddau fel Cristnogaeth, Islam a Bwdhaeth, a hefyd nodi rhai enghreifftiau diddorol

A bu'r Dr Llinos Roberts ar **Newyddion 9** ar **S4C** yn sôn am y pwysigrwydd o gael gofal iechyd yn eich dewis iaith, a'r angen i edrych yn strategol ar y gweithlu o fewn y gwasanaeth iechyd yn y cyd-destun hwn er mwyn ateb gofynion ieithyddol y Cymry.

Llongyfarchiadau i Mali, aelod yn ein Hysgol Sul, ar gyflawni **Ras Ironman Cymru** ar gyfer Plant a gynhaliwyd yn Nimbych-y-pysgod yn ddiweddar ac ennill medal sgleiniog dros ben am ei champ.

Un sydd wedi bod ar grwydr yn ddiweddar yw Elin Llwyd a hynny yn Simbabwe. A phenllanw tair blynedd o ymweld â'r wlad honno oedd y trip yn ôl i'r brifddinas Harare. Bu'n gweithio yno gyda rhyw 20 o athrawon i'w hannog i ddefnyddio canu yn yr ystafell ddosbarth er mwyn bwydo creadigrwydd a mwynhad y plant a'r athrawon ar eu taith drwy addysg. A hyfryd yn wir yw clywed yr athrawon hyn yn canu'n arbennig o swynol yn Gymraeg! Bu Elin hefyd yn cymryd rhan yn **Gwlad** - gŵyl yn canobwyntio ar Gymru'r dyfodol yn y Senedd, Adeilad y Pierhead, yn rhan o raglen i nodi 20 mlynedd o ddatganoli. Bydd **Gwlad** ar daith yn yr hydref drwy Gymru gyda gwyliau undydd yng Nghaerfyrddin, Caernarfon a'r Wyddgrug.



Ewch i Frynderwen i weld **Caerfyrddin yn ei Blodau 2019!** Mae pedwar o'n haelodau, Janet a Gwynfor Davies ac Adrian a Gloria Evans ymhlith enillwyr Preswylwyr Brynderwen yn y categori **Cystadleuaeth Safle Harddaff Ardal Breswyl – i fyny at 5 annedd.** Bydd y noson wobrwyo yn Neuadd Ddinesig San Pedr ar Nos Fercher, 23 Hydref 2019. Ardderchog yn wir. A dyna ni'n gwybod yn awr ble i fynd i gael awgrymiadau da ar gyfer yr ardd!



AC I GLOI, ein llongyfarchiadau mawr i Peter a Meinir Hughes Griffiths a fydd yn dathlu'u priodas aur ar 25 Hydref 2019. Hwyl gyda'r dathlu a phob dymuniad da oddi wrth bawb yn y Priordy





Y SULLIADUR



Hydref	6	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Cwrdd Diolchgarwch y Plant a'r Bobl ifainc gyda'n Gweinidog Cwrdd Pregethu a Swper Diolchgarwch gyda'r Hybarch Randolph Thomas a'n Gweinidog Cesglir rhoddion at Fanc Bwyd Caerfyrddin	Cymun
	13	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
	20	<i>Bore</i> <i>P'nawn</i>	Ein Gweinidog Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg am 12.30. Manylion y tu mewn.	
	27	<i>Bore</i> <i>P'nawn</i>	Y Parchedig Ddr John Tudno Williams Oedfa i'r Ofalaeth ym Mancyfelin am 2 gyda'r Parchedig Ddr John Tudno Williams	

Tachwedd	3	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog yn seiliedig ar wasanaeth Sul yr Urdd gydag eitemau gan Adran Ffynnon-ddrain. Derbyn aelodau newydd. Bore Coffi <i>Therapies Unite</i> i ddilyn Ein Gweinidog	Cymun
	10	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
	17	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
	24	<i>Bore</i> <i>P'nawn</i>	Y Parchedig Carwyn Siddal Oedfa il'r ofalaeth gyda'r Parchedig Carwyn Siddal yng Nghana am 2	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC							
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant SS – Sgiliau Syrcas gyda Rosan U- Sul yr Urdd							
Hydref				Tachwedd			
6	13	20	27	3	10	17	24
CP	✓ /PIP ss	✓ PIP	-	U	✓ PIP	✓ PIP	✓ PIP

CYFARFOD CYNTAF Y GYMDEITHAS

Nos Lun 7 Hydref am 7

JOHN REES

Rhaglen Trysorau'r Teulu S4C

